Centre of expertise on child sexual abuse

# Ymddygiad rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd

## Canllaw ar sut i ymateb i ymddygiad amhriodol, problemus a chamdriniol





Medi 2023

## Gair am y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol (Ganolfan CPRh)

Ein nod cyffredinol yw lleihau effaith cam-drin plant yn rhywiol drwy atal ac ymateb gwell, fel bod plant yn gallu byw'n rhydd o fygythiad a niwed cam-drin rhywiol.

## Pwy ydym ni

Rydym yn dîm amlddisgyblaeth, wedi ein hariannu gan y Swyddfa Gartref a'n gweinyddu gan Barnardo's. Gweithiwn yn agos â phartneriaid allweddol o sefydliadau academaidd, awdurdodau lleol, iechyd, addysg, yr heddlu a'r sector gwirfoddol.

## Ein nodau

**Y nodau y gweithiwn i'w cyrraedd yw:**

- cynyddu'r flaenoriaeth a roddir i gam-drin plant yn rhywiol, drwy wella dealltwriaeth o'i raddfa a'i natur
- sicrhau bod mwy'n cael ei wneud i adnabod ac ymateb yn well i blant a phobl ifanc sydd wedi eu cam-drin yn rhywiol
- galluogi tarfu ac atal cam-drin plant yn rhywiol yn fwy effeithiol, drwy well dealltwriaeth o ymddygiad sy'n cam-drin yn rhywiol.

## Yr hyn a wnawn

**Rydym yn ceisio cyflwyno'r newidiadau hyn drwy:**

- cynhyrchu a rhannu gwybodaeth am raddfa a natur cam-drin plant yn rhywiol, a'r ymateb iddo
- mynd i'r afael â bylchau mewn gwybodaeth drwy rannu ymchwil a thystiolaeth
- darparu hyfforddiant a chymorth i weithwyr proffesiynol ac ymchwilwyr sy'n gweithio yn y maes
- ymgysylltu â pholisi a dylanwadu arno.

Am fwy o wybodaeth am ein gwaith, ewch i'n gwefan yn:
**www.csacentre.org.uk**

Ysgrifennwyd yr adnodd hwn gan Peter Yates, darlithydd mewn gwaith cymdeithasol ym Mhrifysgol Caeredin, a Stuart Allardyce, cyfarwyddwr yn Sefydliad Lucy Faithfull, gyda mewnbwn gan staff yn y Ganolfan CPRh.

# Cynnwys


Cyflwyniad ... 6

Camau allweddol y broses o adnabod ac ymateb ... 8

**Rhan A: Adnabod a deall ymddygiad rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd ... 9**

1. Pwysigrwydd myfyrio ar eich ymarfer ... 10

2. Asesu natur a chyd-destun ymddygiad rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd ... 11

2.1 Cadwch feddwl agored ... 14

2.2 Y camau nesaf ... 16

**Rhan B: Ymateb i ymddygiad rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd ... 17**

3. Ymateb teulu cyfan i ymddygiad rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd ... 18

4. Cefnogaeth gychwynnol i riant/rhieni'r plant ... 21

5. Trefniadau byw'r plant ... 22

5.1 Ystyriaethau wrth benderfynu a ddylid gwahanu'r plant ... 23

5.2 Adolygu'r penderfyniad ... 29

6. Cyswllt rhwng y plant ... 30

6.1 Os yw'r plant yn byw ar wahân, a ddylid cael cyswllt rhyngddynt? ... 30

6.2 Cynllunio diogelwch ... 31

7. Asesiad pellach ... 32

7.1 Cyfweld ag aelodau'r teulu ... 33

8. Ymyrraeth a chymorth pellach ... 34

**Rhan C: Diwallu eich anghenion personol ... 35**

9. Gofalu amdanoch chi eich hun ... 36

**Cyfeirnodau ... 37**

# Cyflwyniad

## Ar gyfer pwy mae'r canllaw hwn?

Mae'r canllaw hwn ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd lle ceir pryderon am ymddygiad rhywiol sy'n cynnwys brodyr a chwiorydd. Cafodd ei lunio i gynorthwyo gweithwyr proffesiynol i wneud penderfyniadau yn unol â'r dystiolaeth bresennol sy'n ymwneud â'r mater dan sylw.

## Sut i ddefnyddio'r canllaw hwn

Bwriad y canllaw hwn yw helpu gweithwyr proffesiynol i lywio penderfyniadau allweddol ar wahanol gamau mewn achos lle ceir pryderon am ymddygiad rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd. Gall ymddygiad o'r fath amrywio o ymddygiad sy'n briodol yn ddatblygiadol, hyd at ymddygiad amhriodol neu broblemus a chamdriniol.

Gan fod brodyr a chwiorydd yn aelodau o deulu, dylid bob amser ystyried eu hymddygiad yng nghyd-destun eu teulu ehangach, ac nid ar sail deinameg a hanes y teulu yn unig. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fydd ymddygiad rhywiol yn amhriodol, yn broblemus neu'n gamdriniol. Mae hyn yn effeithio ar bob aelod o'r teulu mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, a bydd ymateb pob un ohonynt yn cael effaith ar y naill a'r llall. Wrth ystyried plentyn sydd wedi niweidio rhywun, a phlentyn sydd wedi cael ei niweidio – yn ogystal ag unrhyw blentyn arall yn y teulu – mae'n rhaid cofio mai plant ydyn nhw yn gyntaf, ac mae'n bwysig cefnogi diogelwch, iechyd, a lleisiant pob un. Fodd bynnag, mae anghenion pob plentyn yn wahanol, ac mae posibilrwydd y gall yr anghenion hyn wrthdaro o bryd i'w gilydd.

Er bod y rhan fwyaf o weithwyr proffesiynol yn meddu ar y sgiliau i reoli sefyllfaoedd o'r fath, maent yn aml yn dweud nad oes ganddynt ddigon o wybodaeth neu brofiad i deimlo'n ddigon hyderus i wneud hyn yn effeithiol. Yng nghyd-destun llwythi gwaith trwm, bwriedir i'r canllaw hwn fod yn adnodd hygyrch i helpu gweithwyr proffesiynol i drafod y cymhlethdodau a'r heriau a godir gan ymddygiadau rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd.

Dylid darllen y canllaw hwn ochr yn ochr â ***Sibling Sexual Abuse: A Knowledge and Practice Overview***, y Ganolfan CPRh, yn ogystal â darllen pellach a awgrymir, ac ni ddylid ei ystyried yn ddogfen annibynnol. Mae gan yr adroddiad ddwy brif ran:

- Mae **Rhan A** yn ymdrin ag adnabod a deall ymddygiad rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd, ac mae'n ei gyflwyno fel continwwm sy'n amrywio o ymddygiad sy'n briodol yn ddatblygiadol, hyd at ymddygiad camdriniol. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd myfyrio ar eich ymarfer a bod yn agored i'r posibilrwydd y gallai ymddygiad rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd fod yn broblemus neu'n gamdriniol. Mae nifer o 'bwyntiau myfyrio' wedi'u cynnwys i'ch helpu yn hyn o beth.

- Mae **Rhan B** yn ymdrin ag ymatebion proffesiynol i ymddygiad rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd. Ar ôl nodi'r ymatebion allweddol i wahanol lefelau o ymddygiad, mae'n rhoi rhagor o fanylion am yr ymateb cychwynnol i ymddygiad amhriodol, problemus a chamdriniol rhwng brodyr a chwiorydd.

Mae pennod olaf fer yn cynnwys cyngor ar ofalu am eich llesiant eich hun wrth weithio gyda theuluoedd y mae ymddygiad rhywiol brodyr a chwiorydd yn effeithio arnynt.

## Iaith a therminoleg

Er mwyn cadw pethau'n syml ac yn unol â'r diffiniad a ddefnyddir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, rydym fel arfer yn defnyddio'r term **'plentyn'** ar gyfer unrhyw un dan 18 oed.

Rydym yn cydnabod bod termau fel 'brawd', 'chwaer' a 'teulu' yn gallu bod ag ystyron gwahanol mewn gwahanol deuluoedd, cyd-destunau a diwylliannau. Mae bob amser yn bwysig gofyn i'r plant pa dermau y mae'n well ganddynt eu defnyddio, a beth mae'r termau hynny'n ei olygu iddynt. Er hynny, yn y canllaw hwn rydym yn defnyddio **'brawd neu chwaer'.**

Rydym hefyd yn cydnabod bod llawer o wahanol fathau o **berthnasoedd rhwng brodyr a chwiorydd**, ac nad yw rhai plant yn ystyried eu hunain yn perthyn yn fiolegol nac yn gyfreithiol. Yn seiliedig ar waith ymchwil diweddar, mae'r canllaw hwn yn ymwneud yn bennaf ag ymddygiad rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd sydd ag un neu ddau riant yn gyffredin, ac sydd wedi byw ac wedi tyfu i fyny gyda'i gilydd mewn cyd-destun teuluol. Mae llawer o'r materion a godir yma hefyd yn debygol o fod yn berthnasol i berthnasoedd rhwng brodyr a chwiorydd sydd ddim yn cyd-fynd â'r disgrifiad hwn, fel brodyr a chwiorydd maeth neu fabwysiadol.

Lle bynnag y bo modd, rydym yn defnyddio'r termau **'plentyn sydd wedi cael ei niweidio'** a **'phlentyn sydd wedi niweidio'** yn hytrach na 'dioddefwr', 'goroeswr' a 'throseddwr', a hynny oherwydd bod y termau hynny'n dueddol o gael eu defnyddio wrth drafod troseddau rhywiol ymysg oedolion. (Am yr un rheswm, rydym yn defnyddio'r term 'ymddygiad rhywiol camdriniol rhwng brodyr a chwiorydd' yn hytrach na 'cam-drin rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd'.) Mae hyn yn arbennig o bwysig gan ein bod yn cyfeirio at blant sy'n dysgu ac yn datblygu, ac sydd angen eu cefnogi a'u hamddiffyn gan weithwyr proffesiynol. Sylwch fod llawer o blant sy'n niweidio wedi cael eu niweidio eu hunain mewn rhyw ffordd yn y gorffennol.

Er mwyn cadw pethau'n syml, rydym yn cyfeirio at y *plentyn* sydd wedi niweidio/cael ei niweidio drwy gydol y canllaw, ond rydym yn cydnabod y gallai ymddygiad rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd achosi niwed i fwy nag un plentyn.

Mae'r term **'ymddygiad rhywiol niweidiol'** yn cael ei ddefnyddio'n aml fel term cyffredinol i ddisgrifio amrywiaeth o ymddygiadau rhywiol a arddangosir gan blant. Rydym yn defnyddio'r term yn gynnil yn y canllaw hwn wrth gyfeirio at ymddygiad rhywiol sydd wedi/yn gallu achosi niwed i frodyr a chwiorydd, ond pan fo'n briodol rydym yn cyfeirio'n benodol at ymddygiad rhywiol sy'n briodol o safbwynt datblygiad, yn amhriodol, yn broblemus neu'n gamdriniol rhwng brodyr a chwiorydd (fel y diffinir ym Mhennod 2).


Rydym yn defnyddio'r term **'rhiant'** ar gyfer rhywun sydd â chyfrifoldeb dros ofalu am blentyn; gall yr unigolyn fod yn rhiant biolegol, yn llys-riant, yn rhiant mabwysiadol, yn rhiant maeth, neu'n berthynas arall sy'n cyflawni'r rôl honno**.**

# Camau allweddol y broses o adnabod ac ymateb

Gall achosion o ymddygiad rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd fod yn dalcen caled i weithwyr proffesiynol, ond yr un yw'r broses ymateb ar gyfer unrhyw sefyllfaoedd pan fo pryderon ynghylch plant, sef:

- Nodi beth yw'r pryderon sy'n dod i'r amlwg.
- Deall natur unrhyw niwed.
- Lle bo'n briodol, cymryd camau i atal rhagor o niwed a chynnal asesiad ychwanegol.
- Ym mhob achos, sicrhau bod y plant a'u teuluoedd yn deall y sefyllfa, a'u bod nhw'n ymateb i'r sefyllfa honno

Isod, rydym yn amlinellu camau allweddol y broses o adnabod ac ymateb i sefyllfaoedd o'r fath.



# Rhan A: Adnabod a deall ymddygiad rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd

# 1. Pwysigrwydd myfyrio ar eich ymarfer

Pan fydd plant yn meddwl, yn teimlo a/neu'n ymddwyn mewn ffordd rywiol, gall hyn godi pryderon sylweddol ond diangen weithiau – i'w teuluoedd ac i weithwyr proffesiynol. Mae'n bosibl y bydd oedolion yn teimlo'n anghyfforddus gyda'r syniad y gallai plant, ac yn enwedig brodyr a chwiorydd, ymddwyn yn rhywiol gyda'i gilydd – hyd yn oed os yw'r ymddygiadau hynny'n ddatblygiadol briodol ac yn ddiniwed. Mae'n bosibl y byddant yn cael trafferth deall sefyllfaoedd lle mae brodyr a chwiorydd yn ymddwyn yn rhywiol gyda'i gilydd. Gall hefyd fod yn arbennig o anodd derbyn y gall plant ymddwyn mewn ffyrdd rhywiol camdriniol sydd, fel arfer, yn cael eu cysylltu ag oedolion.

Gall pryderon a deinameg teuluoedd (a gweithwyr proffesiynol eraill) greu heriau pellach wrth ymateb i anghenion plant yn briodol ac yn gymesur. Fodd bynnag, mae'n hollbwysig diogelu a chefnogi llesiant yr holl blant sy'n ymwneud ag ymddygiad rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd, yn ogystal ag unrhyw frodyr a chwiorydd sydd ddim yn rhan o hynny ond a allai gael eu heffeithio gan yr ymddygiad beth bynnag.

### Pwynt myfyrio

Mae aros yn **bwyllog**, yn **ystyriol** ac yn **fyfyriol** yn hanfodol wrth weithio gyda theuluoedd y mae ymddygiad rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd yn effeithio arnynt; y ffordd orau o wneud hyn yw derbyn **goruchwyliaeth** fyfyriol yn rheolaidd, a chynnal sgyrsiau parhaus â chydweithwyr. Efallai na fydd rhai gweithwyr proffesiynol yn teimlo'n ddigon cyfforddus i weithio yn y maes hwn o gwbl; ydy hynny'n wir amdanoch chi? Os felly, mae'n bwysig eich bod yn tynnu sylw at hyn yn ystod goruchwyliaeth.

Mae'n arbennig o bwysig cydnabod a deall y **rhwystrau** a allai eich atal rhag adnabod ac ymateb i ymddygiad rhywiol niweidiol gan frodyr a chwiorydd. Mae ymchwil gan Yates (2018) wedi canfod, wrth weithio gyda'r pryderon hyn, y gallai gweithwyr proffesiynol fod yn dueddol o weithredu'n reddfol yn hytrach na gwneud asesiadau ystyriol; gallant ei chael yn anodd derbyn y syniad o blant yn ymddwyn mewn ffyrdd rhywiol camdriniol, yn enwedig yng nghyd-destun perthnasoedd rhwng brodyr a chwiorydd. O ganlyniad, gallant leihau difrifoldeb ymddygiad rhywiol camdriniol rhwng brodyr a chwiorydd. Hefyd, mae King-Hill, McCartan et al (2023) wedi canfod y gall gweithwyr proffesiynol boeni'n ormodol am ddifrifoldeb yr ymddygiad rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd, neu hyd yn oed gorliwio'r mater er mwyn dwyn sylw'r gwasanaethau (gan arwain at sefyllfaoedd lle mae plant yn cael eu labelu a lle mae eu mynediad at gyfleoedd i ddatblygu'n cael eu cyfyngu'n ddiangen). Nid yw'r ymatebion hyn yn ddefnyddiol i blant na'u teuluoedd.

Os byddwch yn canfod neu'n meddwl bod plentyn wedi cael ei niweidio'n rhywiol, ond nad ydych chi'n siŵr pwy yn union sydd wedi'i achosi'r niwed, gwnewch yn siŵr eich bod yn ystyried y posibilrwydd y gallai'r niwed fod wedi cael ei achosi gan blentyn arall, gan gynnwys brawd neu chwaer. Yn yr un modd, os byddwch yn dod ar draws ymddygiad rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd, gwnewch yn siŵr eich bod yn ystyried a yw'n ymddygiad camdriniol ai peidio, neu fel arall y tu allan i normau datblygiadol; archwilir hyn mewn manylder ym Mhennod 2.

# Asesu natur a chyd-destun ymddygiad rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd

2.

Os oes pryderon am ymddygiad rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd wedi cael eu nodi, y cam cyntaf y dylid ei gymryd yw asesu natur yr ymddygiad.

Gellir ystyried bod ymddygiad rhywiol plant ar gontinwwm, sy'n amrywio o ymddygiadau disgwyliedig neu sy'n briodol o safbwynt datblygiad, hyd at ymddygiadau camdriniol – gweler Tabl 1 ar y dudalen nesaf. Gan gadw natur y berthynas ehangach rhwng y brodyr a chwiorydd mewn cof, bydd angen i chi benderfynu pa rai o'r categorïau yn y tabl – sy'n cael eu haddasu o'r continwwm ymddygiad rhywiol plant a ddatblygwyd gan Simon Hackett (Hackett, 2010) – sy'n disgrifio orau yr ymddygiadau a nodwyd.

Er ei bod yn gyffredin i rywun feddwl am gyswllt corfforol wrth ystyried ymddygiad rhywiol ymysg plant, gall hefyd gynnwys ymddygiad ar-lein, fel creu/rhannu deunydd cam-drin plant yn rhywiol (ee lluniau a fideos) a rhyngweithio rhywiol ar-lein.

Mae adran 2.2 ***Sibling Sexual Abuse: A Knowledge and Practice Overview*** y Ganolfan CPRh yn cynnwys rhagor o wybodaeth i'ch helpu i wahaniaethu rhwng ymddygiad rhywiol sy'n briodol yn ddatblygiadol a'r rhai sydd y tu hwnt i normau datblygiadol.

Mae gwefan **Parents Protect** Sefydliad Lucy Faithfull yn cynnwys cyfres o ganllawiau ar ddeall datblygiad rhywiol plant o wahanol oedrannau.

Efallai y byddai hefyd yn ddefnyddiol i chi ddarllen ***Age Appropriate Sexual Behaviour in Children and Young People (2nd Edition)***, sef llyfr gan "The South Eastern Centre Against Sexual Assault and Family Violence" a gyhoeddwyd yn Awstralia, ac sy'n darparu trafodaeth ehangach ar ymddygiadau rhywiol plant mewn cyd-destun datblygiadol.

Cofiwch y gall ymddygiad rhywiol problemus neu gamdriniol rhwng brawd neu chwaer aros **yn gudd ac yn anodd ei adnabod**: mae nifer o rwystrau sy'n atal plant rhag siarad amdano, a rhwystrau sy'n atal oedolion rhag adnabod a rhoi gwybod am bryderon. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw waith ymchwil wedi canfod dangosyddion penodol o ymddygiad rhywiol camdriniol rhwng brodyr a chwiorydd sy'n wahanol i arwyddion a dangosyddion ymysg plant sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol gan oedolion.

Mae **Templed Arwyddion a Dangosyddion** Canolfan CPRh yn rhestru amrywiaeth o arwyddion corfforol ac ymddygiadol y gall plentyn eu harddangos os yw wedi cael ei niweidio'n rhywiol, yn ogystal ag arwyddion posibl o ymddygiad rhywiol ymysg rhieni o flaen y plentyn, a ffactorau'n ymwneud â theulu neu amgylchedd y plentyn a allai gynyddu'r cyfleoedd i niwed rhywiol ddigwydd. Os oes gennych chi bryderon am blentyn a allai fod wedi cael ei niweidio'n rhywiol, dylech ystyried y posibilrwydd y gallai'r niwed fod wedi cael ei achosi gan riant neu oedolyn arall, a/neu gan frawd neu chwaer, neu blentyn arall.

**Tabl 1. Continwwm ymddygiad rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd[1]**

<table>
<tr><th>Rhyngweithio rhywiol sy'n briodol yn ddatblygiadol</th><th>Ymddygiadau rhywiol amhriodol</th><th>Ymddygiadau rhywiol problemus</th><th>Ymddygiadau rhywiol camdriniol</th></tr>
<tr><td rowspan="2">Mae'r rhyngweithio hyn:<br><br>• yn digwydd rhwng brodyr a chwiorydd ifanc (sydd heb fod yn hŷn nag wyth neu naw oed) sydd tua'r un oed ac ar yr un cam datblygu, ac<br><br>• yn wirfoddol, yn ysgafngalon ac yn chwareus (ee gemau fel 'dangos di dy un di, ac fe ddangosa i fy un i' neu 'doctors a nyrsys'), ac<br><br>• yn ymwneud â chwilfrydedd, sy'n cynnwys archwilio cyrff neu rolau rhywedd, ac<br><br>• yn cael eu cydbwyso gan chwilfrydedd i archwilio pob math o bethau eraill ym myd y plentyn, ac<br><br>• yn lleihau os bydd oedolyn yn dweud wrthynt i stopio.<br><br>Po fwyaf y mae'r ymddygiad yn gwyro oddi wrth y disgrifiad hwn, y mwyaf pryderus yw'r sefyllfa.</td><td rowspan="2">Mae'r rhain yn ymddygiadau sy'n digwydd mewn achosion unigol, lle:<br><br>• yn achos brodyr a chwiorydd ifanc, mae'r ymddygiad yn symud ychydig y tu hwnt i archwiliad chwilfrydig o gyrff neu mae cyd-destun yr ymddygiad yn amhriodol, neu<br><br>• yn achos brodyr a chwiorydd hŷn, mae cyd-destun yr ymddygiad yn amhriodol ac yn cael ei gamfarnu.</td><td colspan="2">Gall gwahaniaethu rhwng ymddygiad camdriniol ac ymddygiad problemus fod yn dasg anodd ar brydiau. Yn y bôn, mae angen asesu a deall deinameg pŵer y berthynas rhwng brodyr a chwiorydd er mwyn deall deinameg pŵer ymddygiad rhywiol y brodyr a chwiorydd.</td></tr>
<tr><td>Mae'r ymddygiadau hyn:<br><br>• yn cael eu hailadrodd a'u patrymu, neu<br><br>• yn disgyn yn fwy amlwg y tu allan i normau datblygiadol, neu<br><br>• yn golygu diffyg eglurder ynghylch cydsyniad neu ddwyochredd<br><br>ond heb gael eu hasesu fel ymddygiadau camdriniol.</td><td>Mae ymddygiadau'n amlwg yn gamdriniol os ydynt yn cynnwys:<br><br>• gwahaniaethau sylweddol o ran pŵer (ee maint, cryfder, gallu gwybyddol, awdurdod), neu<br><br>• gwahaniaeth mawr o ran oedran (tair blynedd neu fwy) rhwng y plant, neu<br><br>• y defnydd o drais, bygythiadau, grym neu orfodaeth arall (ee llwgrwobrwyon, triciau a manipwleiddio, fel rhoi neu wrthod anwyldeb).<br><br>Fodd bynnag, mae llawer o enghreifftiau yn yr ymchwil o ymddygiad rhywiol camdriniol rhwng brodyr a chwiorydd yn digwydd yn absenoldeb y dangosyddion hyn. Yn yr amgylchiadau hyn, mae cynnal asesiad o ddeinameg pŵer y berthynas rhwng brodyr a chwiorydd yn hanfodol.</td></tr>
</table>

1 Sylwch fod Pennod 2 *Sibling Sexual Abuse: A Knowledge and Practice Overview* yn rhestru 'ymddygiadau rhywiol camdriniol' ac 'ymddygiadau rhywiol treisgar' fel categorïau ar wahân, ond er mwyn cadw pethau'n syml, rydym wedi eu cyfuno yn y canllaw hwn.

Pryd bynnag y ceir pryderon am ymddygiad rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd, mae'n bwysig siarad â'r ddau blentyn/yr holl blant dan sylw ar wahân, a draw oddi wrth rieni a gweithwyr proffesiynol eraill. Bydd hyn yn eich helpu i wneud y canlynol:

- asesu eu llesiant cyffredinol
- deall eu safbwynt ar yr ymddygiad ac ar eu perthynas â'u brawd/chwaer
- ystyried a oes unrhyw bryderon neu risgiau eraill i'r plant, o fewn neu'r tu allan i'r teulu, sy'n parhau neu sydd wedi rhagflaenu ymddygiad rhywiol y brawd neu'r chwaer.

Bydd asesu'r ddeinameg pŵer rhwng y brodyr a'r chwiorydd yn eich helpu i ddeall yr ymddygiad rhywiol a'r ffordd orau o gefnogi eu perthnasoedd o'r pwynt hwn ymlaen. Bydd safbwyntiau'r plant eu hunain yn ganolog i hyn.

Mae **Canllaw Cyfathrebu â Phlant** Canolfan CPRh yn cynnwys gwybodaeth fanwl ar sut i siarad â phlant sydd wedi cael eu niweidio'n rhywiol.

### Pwynt myfyrio

Os oes ymddygiad rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd wedi cael ei nodi, ystyriwch pa wybodaeth sydd ei hangen arnoch chi i ddeall yr ymddygiad. Er enghraifft, a oes patrwm yn perthyn i'r ymddygiad? Beth yw'r cyd-destun ehangach y digwyddodd hyn ynddo?





## 2.1 Cadwch feddwl agored

Dylech bob amser **fod yn agored i'r posibilrwydd y gallai gwybodaeth newydd ddod i'r amlwg** a allai newid eich asesiad gwreiddiol o'r sefyllfa – yn benodol, y posibilrwydd y gall yr ymddygiad a aseswyd fel un amhriodol fod wedi/yn gallu datblygu i fod yn ymddygiad problemus, a bod ymddygiad a aseswyd fel un problemus wedi/yn gallu datblygu i fod yn ymddygiad camdriniol.

- **Defnyddiwch yr un dull ag mewn sefyllfaoedd eraill o gamdriniaeth neu niwed rhywiol posibl.** Mae ymchwil gan Yates (2018) wedi canfod fod gweithwyr proffesiynol weithiau yn amau a oes ymddygiad rhywiol niweidiol gan frawd neu chwaer wedi digwydd o gwbl, sef rhywbeth nad oeddent fel arfer yn ei wneud mewn sefyllfaoedd yn ymwneud ag ymddygiad oedolion neu oedolion yn y glasoed y tu allan i'r teulu – a hynny er gwaethaf y ffaith bod cyfran sylweddol o achosion o gam-drin plant yn rhywiol yn cael ei gyflawni gan blant, gan gynnwys brodyr a chwiorydd, a gall fod yr un mor niweidiol â cham-drin gan oedolyn.

- **Heriwch eich ffordd o feddwl, yn enwedig mewn sefyllfaoedd lle gallai fod tuedd i orbwysleisio neu danbrisio difrifoldeb yr ymddygiad.** Canfu Yates (2018) hefyd fod gweithwyr proffesiynol yn aml yn gofyn am ail ddigwyddiad cyn cymryd unrhyw gamau, hyd yn oed pan dderbyniwyd bod ymddygiad rhywiol camdriniol fel trais rhywiol wedi digwydd, ac maent yn gwneud penderfyniadau i blant barhau i fyw gyda'i gilydd neu mewn cysylltiad â'i gilydd ar ôl i niwed sylweddol gael ei achosi.

- **Cydnabyddwch y gallai'r ymddygiad fod wedi bod yn niweidiol, beth bynnag fo'r rhesymau drosto.** Gall rhai mathau o ymddygiad rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd fod yn adweithiol i brofiadau rhywiol neu erledigaeth rywiol y mae plentyn wedi'u profi, neu i ddeunydd y mae wedi dod i gysylltiad ag ef. Mae hyn yn arbennig o wir am blant cyn-glasoed, ond hefyd am bobl ifanc yn y glasoed. Mae angen i'ch ymateb fod yn ystyriol o drawma a hyrwyddo diogelwch i bob plentyn, ond wrth gydnabod beth yw'r rhesymau dros yr ymddygiad ni ddylech fyth fychanu'r niwed a allai fod wedi digwydd.

- **Byddwch yn glir ac yn ystyriol o'r iaith rydych yn ei defnyddio.** Gall gweithwyr proffesiynol wrthod labelu'r ymddygiad fel ymddygiad camdriniol, hyd yn oed mewn sefyllfaoedd lle mae wedi cael ei asesu'n hynny i ddechrau, fel ffordd o geisio osgoi labelu plentyn fel camdriniwr. Mae'n bwysig gwahanu labelu'r plentyn oddi wrth labelu ei ymddygiad. Canfu Yates (2018) fod termau fel 'amhriodol' neu 'arbrofol' yn cael eu defnyddio i ddisgrifio ymddygiadau a oedd yn amlwg yn gamdriniol, a'u bod yn tan-gyfleu difrifoldeb yr ymddygiad a'i effaith ar y plentyn sydd wedi cael ei niweidio. Roedd hyn yn arbennig o amlwg mewn achosion a oedd yn ymwneud ag ymddygiad camdriniol gan blant iau, plant a oedd wedi mynegi rhywfaint o edifeirwch am yr ymddygiad, neu blant a oedd eisoes yn adnabyddus i'r gweithiwr proffesiynol.

- **Ystyriwch yr holl ymddygiadau sy'n cael eu harddangos gan y brawd neu chwaer.** Yn draddodiadol, ystyriwyd bod ymddygiad rhywiol niweidiol yn cynnwys cyswllt rhywiol corfforol neu ymddygiad digyswllt fel dod i gysylltiad â voyeuriaeth – ond mae pryderon mewn perthynas ag ymddygiad rhywiol plant yn ymwneud fwyfwy â defnyddio technoleg ddigidol. Gall hyn gynnwys rhannu pornograffi ar-lein â phlant eraill, meithrin perthynas amhriodol ar-lein, aflonyddu rhywiol ar-lein, a chreu a/neu rannu delweddau rhywiol heb gydsyniad; gall yr holl ymddygiadau hyn ddigwydd mewn perthnasoedd rhwng brodyr a chwiorydd. Mae'r holl dystiolaeth hyd yma yn awgrymu bod y niwed sy'n cael ei achosi gan ymddygiad rhywiol 'gyda chymorth technoleg' yn gallu bod yr un mor ddylanwadol â niwed oherwydd ymddygiad sy'n cynnwys cyswllt corfforol (Brown, 2023). Ond cofiwch ystyried cyd-destun a chymhelliant yr ymddygiad: os canfyddir bod person ifanc wedi ffilmio ei hun yn cam-drin brawd neu chwaer, mae'n bosibl fod y person ifanc yn cael ei ecsbloetio gan eraill ar-lein i ymddwyn yn gamdriniol.

## Pwynt myfyrio

Myfyriwch ar eich ymatebion chi ac ymatebion oedolion eraill i'r ymddygiad – ble maen nhw'n eistedd ar gontinwwm sy'n amrywio o 'leihau' i 'gymesur' i 'orymateb'? A yw ymatebion gweithwyr proffesiynol allweddol yn wahanol i ymatebion y rhiant/rhieni? Os felly, sut? Beth sydd wrth wraidd yr ymatebion hyn? Sut gallwch chi ddatblygu barn gyffredin am natur a difrifoldeb yr ymddygiadau?

Heriwch eich ffordd o feddwl, yn enwedig os yw'n bosibl – oherwydd oedran y plentyn/plant, er enghraifft, neu oherwydd bod gan un plentyn anabledd dysgu neu fod gennych berthynas â'r teulu eisoes – y bydd tuedd i weithwyr proffesiynol orbwysleisio neu danamcangyfrif difrifoldeb yr ymddygiad.

Gall fod yn ddefnyddiol profi eich ffordd o feddwl a'ch penderfyniadau mewn perthynas â sefyllfa benodol. Rhowch gynnig ar ddefnyddio'r cwestiynau hyn i weld a fyddai eich ffordd o feddwl neu eich penderfyniadau'n newid pe bai'r sefyllfa ychydig yn wahanol:

| **A fyddai fy mhenderfyniadau'n wahanol petai...** | | | |
|---|---|---|---|
| y naill neu'r llall o'r plant o ryw/rhywedd gwahanol? | y naill neu'r llall o'r plant yn hŷn neu'n iau? | ethnigrwydd y plant/teulu yn wahanol? | gan un neu fwy o'r plant anabledd neu anhawster dysgu? |

Ar ben hynny, ai'r ymddygiad sy'n peri pryder neu berthynas y plant fel brodyr a chwiorydd? Pe na bai'r plant yn frodyr a chwiorydd, a fyddai hyn yn effeithio ar eich penderfyniadau?

Weithiau mae'n iawn i feddwl yn wahanol a gwneud penderfyniadau gwahanol mewn gwahanol sefyllfaoedd – ond mae'n bwysig bod yn glir pam mae hyn yn digwydd, yn hytrach na gwneud penderfyniadau ar sail rhagfarnau anymwybodol.

## 2.2 Y camau nesaf

Ar ôl ystyried cyd-destun a natur yr ymddygiad:

- gwnewch yn siŵr eich bod yn meddwl am gydweithiwr neu oruchwyliwr – rhywun sydd â phrofiad o'r maes gwaith hwn yn ddelfrydol
- byddwch yn agored i wybodaeth a thystiolaeth newydd, a bod yn barod i newid eich ffordd o feddwl neu eich barn am yr ymddygiad
- cofnodwch fanylion yr ymddygiad, er mwyn cyfeirio atynt yn y dyfodol ac er mwyn helpu i asesu a oes rhagor o wybodaeth yn cael ei datgelu neu'n dod i'r amlwg
- ystyriwch anghenion y plant, gan gynnwys yng nghyd-destun y teulu ehangach – er ei bod yn bosibl nad yw ymddygiad rhywiol y brawd neu chwaer yn peri pryder mawr, mae'n bosibl y bydd angen mynd i'r afael â risgiau neu anghenion datblygu sydd heb eu diwallu yng nghyd-destun ehangach y teulu (gweler hefyd **Rhan B**)
- gwnewch yn siŵr eich bod wedi ystyried llais yr holl blant dan sylw.

Bydd y camau hyn yn helpu i sicrhau bod eich ymateb yn diwallu anghenion y plant a'r teulu.

### Pwynt myfyrio

Gwiriwch eich iaith. Ydych chi'n siŵr eich bod yn labelu'r ymddygiad yn hytrach na'r plentyn? Cofiwch y gall plant fynegi eu barn mewn gwahanol ffyrdd. Ydych chi'n hyderus eich bod wedi casglu eu barn?

Os ydych chi'n credu bod yr ymddygiad wedi bod yn broblemus neu'n gamdriniol, mae ***Negeseuon Allweddol o'r Ymchwil ar Blant a Phobl Ifanc Sy'n Arddangos Ymddygiad Rhywiol Niweidiol*** y Ganolfan CPRh yn rhoi trosolwg cryno o'r ymchwil ddiweddaraf sydd ar gael i gefnogi dealltwriaeth ac ymarfer proffesiynol.



# Rhan B: Ymateb i ymddygiad rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd

# 3. Ymateb teulu cyfan i ymddygiad rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd

Mae'r bennod hon yn crynhoi'r ymatebion allweddol i wahanol fathau o ymddygiad rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd – gweler Tabl 2 ar y dudalen nesaf. Mae Penodau 4-6 yn rhoi rhagor o fanylion am yr ymateb cychwynnol i ymddygiad rhywiol *problemus a chamdriniol* gan frodyr a chwiorydd, ac mae Penodau 7-8 yn ymdrin ag asesu, ymyrryd a chefnogi pellach yn dilyn yr ymateb cychwynnol.

Ym mhob sefyllfa, bydd angen i chi ddefnyddio dull teulu cyfan sy'n defnyddio ac yn adeiladu ar gryfderau pob aelod o'r teulu er mwyn mynd i'r afael ag anghenion emosiynol ac unrhyw anghenion diogelwch corfforol/rhywiol uniongyrchol y plant yn y teulu – mae hyn yn cynnwys y plentyn/plant sydd wedi ymddwyn yn rhywiol, unrhyw blentyn sydd wedi cael ei niweidio gan yr ymddygiad, ac unrhyw blant nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â'r ymddygiad.

Bydd deall beth sy'n dylanwadau ar ymateb y rhiant/rhieni – megis eu profiadau eu hunain o gam-drin, eu ffydd, eu gwerthoedd, eu credoau, ac ymatebion gan y gymuned ehangach – yn eich helpu i drefnu'r cymorth priodol.

I gael rhagor o wybodaeth am ymatebion cyffredin rhieni i gam-drin neu niweidio eu plant yn rhywiol, edrychwch ar **Ganllaw Cefnogi Rhieni a Gofalwyr** y Ganolfan CPRh.

Po fwyaf difrifol yw'r ymddygiad, y mwyaf tebygol ydyw y bydd angen prosesau diogelu ffurfiol. Ym mhob achos, **y flaenoriaeth gyntaf yw sicrhau diogelwch yr holl blant** yn y teulu, o ran yr ymddygiad rhywiol ac unrhyw fathau eraill o niwed sylweddol. Efallai y bydd angen i chi hefyd ystyried diogelwch plant eraill y tu allan i rwydwaith y teulu (ee ffrindiau a chyd-ddisgyblion) os oes dangosyddion y gallai'r plentyn sydd wedi niweidio beri risg iddynt.

Mae Canolfan Rheoli Gwasanaethau Iechyd Prifysgol Birmingham wedi datblygu **adnodd mapio** (King-Hill, Gilsenan et al, 2023) i gefnogi ymateb gweithwyr proffesiynol i bryderon am ymddygiad rhywiol brodyr a chwiorydd. Cafodd yr adnodd mapio ei gynllunio i'w ddefnyddio ochr yn ochr â'r canllaw hwn, er mwyn eich helpu i drefnu eich ffordd o feddwl ar sail yr wybodaeth sydd gennych am y plant a chyd-destun y teulu.

**Tabl 2. Ymatebion allweddol i ymddygiadau rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd**

| Rhyngweithio rhywiol sy'n briodol yn ddatblygiadol | Ymddygiadau rhywiol amhriodol | Ymddygiadau rhywiol problemus | Ymddygiadau rhywiol camdriniol |
|---|---|---|---|
| **Gallai darparu rhywfaint o gefnogaeth i'r rhiant/rhieni fod yn ymateb digonol.** | **Mae angen ymateb i gefnogi'r plant a'r teulu.** | **Dylid sbarduno Asesiad Cychwynnol statudol o leiaf; mae angen ymyriadau.** | **Mae angen ymyriad statudol, ac ymateb amlasiantaethol i gymhlethdod yr anghenion y mae'r ymddygiadau'n debygol o'u dangos.** |
| Cynigiwch sicrwydd ac addysg i'r rhiant/rhieni am ymddygiadau rhywiol sy'n briodol o safbwynt datblygiad, ac am arwyddion o ymddygiadau sy'n peri pryder. Cynghorwch nhw i ofyn am ragor o gymorth os ydyn nhw'n sylwi ar yr arwyddion hynny. | Cynigiwch addysg i'r rhiant/rhieni am ymddygiad rhywiol, a chymorth i osod ffiniau clir a darparu diogelwch yn y cartref. | Cynigiwch addysg i'r rhiant/rhieni am ymddygiad rhywiol, a chymorth i osod ffiniau clir a darparu diogelwch yn y cartref. | Cynhaliwch asesiad cynhwysfawr a fydd yn arwain at gynllun amlasiantaethol sy'n:<br>• sicrhau diogelwch pawb yn y teulu<br>• cefnogi'r plentyn sydd wedi cael ei niweidio ac unrhyw blant eraill yn y teulu<br>• helpu'r plentyn sydd wedi niweidio i newid eu hymddygiad<br>• adfer perthnasoedd teuluol yn gyffredinol<br>• adfer gweithrediad y teulu.<br>Rhaid i'r ymateb cydgysylltiedig gydnabod y cryfderau a'r galluoedd amddiffynnol sydd gan aelodau'r teulu, a'u cynnwys fel partneriaid yn y broses o wneud penderfyniadau. |
| Mae'n ddigon i'r rhiant/rhieni ddweud wrth y plant am roi'r gorau i'r ymddygiad a/neu dynnu eu sylw drwy weithgareddau eraill. Gall negeseuon clir am ffiniau a ffyrdd priodol o fynegi agosatrwydd fod yn fuddiol. Ni dicterylai'r rhiant/rhieni wylltio gyda'r plant. | Dylai'r rhiant/rhieni ddweud wrth y plant am roi'r gorau i'r ymddygiad, gan fynegi ffiniau clir. Yn dibynnu ar eu hoedran, gall y plant elwa o gael mewnbwn – yn ddelfrydol gan eu rhiant/rhieni neu oedolyn arall yn eu rhwydwaith cymorth – ar berthnasoedd iach. | Ar gyfer plant iau y gall eu rhiant/rhieni eu diogelu/cefnogi, ewch ati i nodi a disgrifio'r ymddygiad problemus, tynnu sylw at ei effaith, a datblygu strategaethau er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y bydd yr ymddygiad yn codi'i ben unwaith eto.<br>Dywedwch wrth blant hŷn pam mae'r ymddygiad yn broblemus, a mynd ati i osod ffiniau, ac annog strategaethau ynghylch hunanreolaeth a mynegiant emosiynol cadarnhaol. | |

Gweler Pennod 4

<table>
<tr><th></th><th>Rhyngweithio rhywiol sy’n briodol yn ddatblygiadol</th><th>Ymddygiadau rhywiol amhriodol</th><th>Ymddygiadau rhywiol problemus</th><th>Ymddygiadau rhywiol camdriniol</th></tr>
<tr><td></td><td></td><td colspan="3">Dysgwch am unrhyw fathau eraill o straen neu niwed sy’n wynebu plant yn y teulu, a chymryd camau i sicrhau eu diogelwch ac i leihau’r straen.</td></tr>
<tr><td>Gweler Pennod 5</td><td></td><td></td><td>Os na all y rhiant/rhieni osod ffiniau clir neu fodelu mynegiant emosiynol cadarnhaol, ac felly maent yn annhebygol o allu atal ymddygiad problemus pellach rhag digwydd, ystyriwch a all y brodyr a’r chwiorydd barhau i fyw gyda’i gilydd gartref ai peidio.</td><td>Yng ngoleuni’r ymddygiad camdriniol ac unrhyw niwed sylweddol arall yn eu bywydau, penderfynwch a yw’n ddiogel i’r brodyr a chwiorydd barhau i fyw gyda’i gilydd gartref.</td></tr>
<tr><td></td><td></td><td></td><td colspan="2">Ystyriwch a oes ymddygiad rhywiol niweidiol y tu allan yn ogystal â’r tu mewn i’r cartref.</td></tr>
<tr><td></td><td></td><td colspan="3">Ewch i’r afael â ffactorau (fel mynediad at ddeunydd rhywiol amhriodol datblygiadol ar-lein) a allai fod wedi cyfrannu at sut y dechreuodd yr ymddygiad.</td></tr>
<tr><td>Gweler Pennod 6 a Pennod 7</td><td></td><td>Sefydlwch gynllun diogelwch cartref tymor byr, a bod yn glir ynghylch sut a phryd y bydd yn cael ei adolygu.</td><td colspan="2">Mae creu cynllun diogelwch ac asesiadau ac ymyriadau manylach yn hanfodol.</td></tr>
<tr><td></td><td colspan="4">Rhowch sylw i unrhyw bryderon eraill yn y teulu (ee cam-drin domestig, esgeulustod, hanes o fathau eraill o gam-drin rhywiol) yn eu rhinwedd eu hunain.</td></tr>
<tr><td>Gweler Pennod 8</td><td>Ystyriwch barhau i fonitro’r sefyllfa.</td><td colspan="3">Ystyriwch barhau i weithio gyda’r teulu am gyfnod, er mwyn cynnig cefnogaeth a monitro’r sefyllfa.</td></tr>
</table>

# Cefnogaeth gychwynnol i riant/ rhieni'r plant

4.

Pan fydd ymddygiad rhywiol camdriniol (neu, mewn rhai achosion, problemus) sy'n cynnwys brodyr a chwiorydd yn dod i'r amlwg, mae'r rhiant/rhieni yn debygol o allu chwarae rhan ganolog yn adferiad eu plant. Bydd angen cymorth proffesiynol arnynt er mwyn iddynt allu manteisio ar eu cryfderau a chyflawni eu rolau fel rhieni mor llawn â phosibl, pa benderfyniadau bynnag y gellir eu gwneud am drefniadau byw'r plant **(gweler Pennod 5)**.

Mae datgelu neu ddarganfod ymddygiad rhywiol o'r fath yn cael ei weld yn aml fel argyfwng yn y teulu. Mae'n bosibl y bydd y rhiant/rhieni yn teimlo eu bod mewn sefyllfa amhosibl, wedi eu rhwygo rhwng anghenion y plentyn sydd wedi niweidio a'r plentyn sydd wedi cael ei niweidio. Mae ymatebion cyffredin a ddangosir gan rieni yn cynnwys sioc gychwynnol a gwadu, ofn, dicter a phryder, euogrwydd a chywilydd, teimlo fel methiant fel rhiant, a theimlo eu bod yn cael eu llethu'n llwyr.

Gall perthynas y rhiant/rhieni â'u plant, a chyda'i gilydd, ddod o dan gryn straen, yn enwedig efallai yng nghyd-destun teuluoedd cyfunol. Mae angen i weithwyr proffesiynol helpu'r rhiant/rhieni i ddod i delerau â'r hyn sydd wedi digwydd, cynnal eu perthynas eu hunain, a symud tuag at allu cynnig cefnogaeth a diogelwch priodol i'r holl blant yn eu teulu.

Mae'n debygol y bydd y rhiant/rhieni angen y canlynol:

- lle ac amser i wyntyllu eu teimladau
- cefnogaeth emosiynol a chyfyngiant (teimlo eu bod yn cael eu dal a'u diogelu)
- her sensitif os ydynt yn gwadu bod yr ymddygiad rhywiol niweidiol wedi digwydd
- gwybodaeth glir, gan gynnwys sicrwydd ynglŷn â'r canlynol:
    - nid yw'r rhan fwyaf o blant yn mynd ymlaen i ailadrodd yr ymddygiadau
    - mae cymorth a chefnogaeth ar gael
    - mae'n iawn bod yn ddig am yr ymddygiad, a mynegi'r dicter hwnnw draw oddi wrth y plentyn mewn amgylchedd cyfyngedig na fydd yn eu cywilyddio
    - mae'n bwysig parhau i garu a chefnogi eu holl blant
    - gallant chwarae rhan bwysig iawn yn helpu'r plentyn sydd wedi niweidio i fynd i'r afael â'i ymddygiad.

Gweler adran 4.2 ***Sibling Sexual Abuse: A Knowledge and Practice Overview*** y Ganolfan CPRh i gael gwybodaeth am sut gall ymddygiad rhywiol niweidiol rhwng eu plant effeithio ar rieni ac aelodau eraill o'r teulu a sut gallant ymateb i hynny.

# 5. Trefniadau byw'r plant

Ar ôl i blentyn ddangos ymddygiad rhywiol camdriniol tuag at frawd neu chwaer, bydd angen gwneud penderfyniad cynnar ynghylch a all y brodyr a chwiorydd barhau i fyw gyda'i gilydd neu beidio. Gall penderfyniad o'r fath hefyd fod yn angenrheidiol mewn achos o ymddygiad rhywiol problemus sydd wedi parhau neu sy'n gwaethygu. Cofiwch y gall ymddygiad rhywiol problemus rhwng brodyr a chwiorydd gynnwys plant yn cymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol ar y cyd, yn ogystal ag un plentyn yn achosi niwed i blentyn arall.

Nid oes unrhyw bosibilrwydd o osgoi'r penderfyniad hwn; mae cynnal y trefniadau byw presennol tra mae asesiad pellach yn cael ei gynnal yn dal i fod yn benderfyniad i beidio â gwahanu'r plant yn y tymor byr.

Cofiwch mai plant yn gyntaf yw'r plentyn sydd wedi niweidio a'r plentyn sydd wedi cael ei niweidio. Gall tynnu plentyn oddi wrth ei deulu arwain at ganlyniadau dinistriol iddo ac ni ddylai hyn fod yn ymateb awtomatig, gwrth-risg, i ymddygiad rhywiol niweidiol brawd neu chwaer. Dylid ystyried y posibilrwydd o gynllunio diogelwch a chymorth ar gyfer y rhiant/rhieni a'r holl blant yn y teulu. Fodd bynnag, gan fod yr ymddygiad hwn yn gallu bod mor niweidiol i blentyn â cham-drin rhywiol gan riant, ni ddylid ystyried tynnu'r plant sydd wedi niweidio o'r cartref teuluol fel dewis olaf chwaith.

I rai plant, mae'n bosibl fod angen eu gwahanu cyn iddynt deimlo'n ddigon diogel i rannu gwybodaeth ychwanegol am y gamdriniaeth. Dylid osgoi tynnu'r plentyn sydd wedi cael ei niweidio oni bai fod ei ddiogelwch yn cael ei beryglu gan risgiau eraill o fewn y teulu heblaw ymddygiad rhywiol ei frawd neu chwaer.

Mae penderfyniadau am wahanu plant yn gymhleth, a dylid eu gwneud gyda goruchwyliaeth, ymgynghori ac atgyfeirio at wasanaethau arbenigol os ydynt ar gael. Yn y cam cynnar hwn, oni bai fod y teulu eisoes wedi cael cysylltiad sylweddol gyda gwasanaethau, mae'n bosibl nad yw gweithwyr proffesiynol yn gwybod rhai pethau amdanynt ac am faterion eraill sy'n effeithio arnynt. Bydd angen cadw golwg ar benderfyniadau, a'u hailystyried os daw gwybodaeth newydd ac asesiadau mwy cynhwysfawr i'r amlwg.

Dylid gwneud yr holl benderfyniadau cychwynnol, i'r graddau y gellir, fel rhan o strategaeth amlasiantaethol sy'n cynnwys y rhiant/rhieni a thrafodaethau gyda'r plant.

Mae adran 5.3.2 ***Sibling Sexual Abuse: A Knowledge and Practice Overview*** y Ganolfan CPRh yn cynnwys rhagor o wybodaeth am wneud penderfyniadau am wahanu brodyr a chwiorydd.

## 5.1 Ystyriaethau wrth benderfynu a ddylid gwahanu'r plant

### (a) Effaith debygol yr ymddygiad rhywiol

Ystyried effaith debygol yr ymddygiad rhywiol (gan gynnwys yr effaith emosiynol) ar y plant yn y teulu, ac yn benodol ar y plentyn sydd wedi cael ei niweidio. Po fwyaf arwyddocaol yw'r effaith debygol, y mwyaf tebygol yw gwahanu i gael ei ystyried, o leiaf yn y lle cyntaf. Hefyd, byddai gwahanu'n cael ei argymell os yw'r plentyn sydd wedi cael ei niweidio yn mynegi trallod, gorbryder neu ofn, gyda'r ddealltwriaeth y gallai ymatebion o'r fath fod yn ddeinamig a newid dros amser.

**Barnu beth yw'r effaith *debygol* ar y plentyn sydd wedi cael ei niweidio**

Yn y tymor hir, bydd angen pennu'r effaith y mae ymddygiad rhywiol niweidiol brawd neu chwaer yn ei chael ar y plentyn sydd wedi cael ei niweidio, a hynny drwy ddod i adnabod y plentyn yn dda iawn.

Yn y tymor byr, er bod yr ymddygiad wedi bod yn niweidiol ar unwaith, ni fydd ei holl effaith yn amlwg ar unwaith naill i'r plentyn sydd wedi cael ei niweidio nac i unrhyw sy'n arsylwi. Mae'n bwysig chwilio am niwed ymhob agwedd ar fywyd plentyn, ond mae'n eithaf posibl na fydd newidiadau'n amlwg. Yn y lle cyntaf, cyn y gellir asesu'r effaith yn briodol, bydd angen gwneud penderfyniad am effaith debygol yr ymddygiad. Dylai'r penderfyniad hwn ystyried yr hyn sy'n hysbys am:

- natur a hyd yr ymddygiad rhywiol niweidiol
- y cyd-destun y digwyddodd hyn ynddo
- profiadau'r plentyn o fathau eraill o gam-drin neu niwed
- ystyr yr ymddygiad i'r plentyn
- ffactorau eraill yn ymwneud ag amddiffyn a bod yn agored i niwed.

Mae'n bosibl y bydd effaith yr ymddygiad yn cael ei gwaethygu neu ei lleihau gan ymatebion aelodau o'r teulu a gweithwyr proffesiynol. Gall teuluoedd nad ydynt yn cydnabod y newid a achoswyd, neu sy'n cam-leoli'r cyfrifoldeb, waethygu effaith yr ymddygiad yn sylweddol.

**(b) Safbwyntiau'r plant (sut bynnag y cânt eu mynegi), ac yn enwedig y plentyn sydd wedi cael ei niweidio**

Mae'n bwysig cydnabod ei bod yn bosibl na fydd y plentyn sydd wedi cael ei niweidio yn teimlo ei fod yn gallu mynegi ei deimladau. Mae rhesymau posibl dros hyn yn cynnwys teyrngarwch i'r teulu neu i'r brawd neu chwaer, pwysau gan rieni, sylwadau gan y plentyn sydd wedi ei niweidio ynglŷn â 'chwalu'r teulu', cyndynrwydd i godi cywilydd ar y teulu, neu ofn bai a goblygiadau.

O ganlyniad, mae angen i blant gael cyfle i siarad â gweithiwr proffesiynol sy'n gallu casglu gwybodaeth am eu teimladau a hefyd data gwrthrychol ar effaith yr ymddygiad: er enghraifft, gallwch ofyn iddyn nhw sut maen nhw'n bwyta ac yn cysgu, a chael gwybod sut maen nhw'n gwneud mewn gwahanol gyd-destunau fel yr ysgol.

Sylwch y gall teimladau plant, a'u gallu i fynegi eu teimladau, newid dros amser a thrwy amgylchiadau sy'n newid. Mewn astudiaeth fach o 10 pâr o frodyr a chwiorydd lle'r oedd y brawd neu'r chwaer a oedd wedi niweidio wedi cael ei symud o'r teulu (Fontana, 2001), dywedodd nifer o'r plant a oedd wedi cael eu niweidio i ddechrau eu bod wedi gweld colli eu brawd neu chwaer; ond ar ôl cyfnod o wahanu, roeddent yn mynegi ofn o'u brawd neu chwaer a'r posibilrwydd y byddai'r brawd neu'r chwaer yn dychwelyd adref. Yn dilyn gwaith adferol gyda'r ddau blentyn, roedd y plentyn a oedd wedi niweidio wedi dychwelyd adref mewn llawer o achosion ac roedd modd adfer y berthynas rhwng y plant.

## Pwynt myfyrio

Gwiriwch hefyd fod eich asesiad wedi ystyried effaith emosiynol yr ymddygiad ar y plant, yn ogystal â'r effaith ar eu diogelwch corfforol. Mae ymchwil wedi canfod na fydd gweithwyr proffesiynol yn aml yn gwneud hyn (Yates, 2018). Ydych chi wedi ystyried anghenion emosiynol ehangach y plant?

Gall plant fynegi eu teimladau a'u hanghenion mewn gwahanol ffyrdd. Ydych chi'n hyderus eich bod wedi cydnabod eu teimladau ac wedi nodi eu hanghenion?



### (c) Gallu'r rhiant/rhieni i amddiffyn eu plant

Mae'r rhiant/rhieni yn allweddol i ddiogelwch eu plant yn y presennol a'r dyfodol, felly mae'n hollbwysig asesu eu gallu i ddiogelu'r plant a gweithredu cynllun diogelwch (gweler adran 6.2). Sylwch y gallai fod angen cymorth a gwybodaeth ychwanegol arnynt er mwyn deall sut y gallant ymateb yn briodol.

Mae'n bwysig cael syniad cychwynnol o'r canlynol:

- a yw'r rhiant/rheini wedi gwneud ymdrechion rhesymol i gyfyngu ar ymddygiadau yn y gorffennol, ac a yw'r rhain wedi gweithio neu beidio
- a ydynt wedi gwneud ymdrechion yn y gorffennol i greu amgylchedd iach, ac a yw'r rhain wedi gweithio neu beidio
- a yw swydd a gweithgareddau eraill y rhiant/rhieni yn eu galluogi i adnabod a goruchwylio ymddygiadau'r plant bob amser.

Gweler hefyd adran 3.2.3 ***Sibling Sexual Abuse: A Knowledge and Practice Overview*** y Ganolfan CPRh.

**Asesiad cychwynnol o allu'r rhiant/rhieni i ddiogelu**

Bydd angen cynnal asesiad cychwynnol o faint o allu sydd gan y rhiant/rhieni – ac unrhyw bobl eraill a allai fod yn cefnogi'r plant yn y teulu – i ddiogelu'r plant. Mae'r cwestiynau i'w hateb yn cynnwys:

- Beth wyddom am amgylchedd y gofalu ac ansawdd y gofal y mae'r rhiant/rhieni wedi gallu ei ddarparu hyd yma?
- A yw'r rhiant/rhieni yn credu bod y plentyn wedi cael ei niweidio? Pwy sy'n gyfrifol yn eu barn nhw? A oes tystiolaeth o feio'r dioddefwr?
- I ba raddau y mae'r rhiant/rhieni yn deall y risgiau o ragor o ymddygiad rhywiol camdriniol neu broblemus, a beth yw effaith hynny?
- Pa syniadau sydd ganddynt o ran cyflwyno diogelwch i amgylchedd y teulu?
- Pa mor debygol a realistig yw hi y byddant yn gallu darparu diogelwch digonol, yn gyson a thros gyfnod hir o amser?
- Pa mor ymroddedig ydyn nhw i geisio diwallu anghenion yr holl blant yn y teulu, gan gynnwys y plentyn sydd wedi niweidio yn ogystal â'r rhai sydd wedi cael eu niweidio?
- Pa adnoddau a chymorth y gall y teulu droi atynt, gan gynnwys ymgysylltu'n gadarnhaol â chymorth proffesiynol, cymorth cymunedol a'r teulu estynedig?

Hyd yn oed os yw'r rhiant/rhieni wedi rhoi gwybod am ymddygiad rhywiol brawd neu chwaer i wasanaethau, yn fodlon derbyn cefnogaeth, ac am i'r plant barhau i fyw gyda'i gilydd gartref, mae'n bwysig cydnabod nad yw'r rhain yn faterion dirprwyol digonol ar gyfer eu gallu i gadw'r plant yn ddiogel: mae'n hysbys bod gweithwyr proffesiynol yn rhoi sawl cyfle i rieni o'r fath barhau i ofalu am eu plant ar ôl digwyddiadau pellach o ymddygiad camdriniol, ond nid yw parodrwydd i ymgysylltu o reidrwydd yn arwydd o allu i amddiffyn (Yates, 2018 a 2020). Yn yr un modd, ni ellir cymryd bod rhieni nad ydynt yn rhoi gwybod am yr ymddygiad ond sy'n ceisio ei reoli o fewn y teulu yn methu ag amddiffyn. Rhaid asesu gallu'r rhieni i amddiffyn y plentyn, ac mae'n bosibl na fydd hynny yr un fath i'r ddau riant.

**(d) Diogelwch corfforol yn amgylchedd y cartref**

Mae'r cwestiynau i'w hystyried yma yn cynnwys:

- Ydy'r plant yn gallu cysgu mewn ystafelloedd gwely ar wahân?
- A yw'r trefniadau byw yn caniatáu i'r rhieni wybod ble mae'r plant a goruchwylio eu hymddygiad?
- A oes unrhyw fannau cudd yn y lle byw, lle byddai'n bosibl i'r plant fynd heb gael eu canfod?
- A oes drysau ar doiledau ac ystafelloedd ymolchi, ac a oes cloeon ar y drysau hynny (neu a oes modd gosod cloeon)?

Gweler hefyd adran 3.2.3 ***Sibling Sexual Abuse: A Knowledge and Practice Overview*** y Ganolfan CPRh.

**(e) Y risg o ragor o ymddygiad rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd**

Po fwyaf y risgiau y bydd rhagor o ymddygiad problemus neu gamdriniol yn digwydd, y mwyaf pwysig yw hi i'r plant gael eu gwahanu.

Ochr yn ochr ag ystyried deinameg benodol mewn teulu a rhwng brodyr a chwiorydd, dylid cynnal **asesiad risg sy'n seiliedig ar dystiolaeth** mewn perthynas ag unrhyw blentyn sydd wedi dangos ymddygiad rhywiol problemus neu gamdriniol rhwng brodyr a chwiorydd, fel bod modd deall lefel yr oruchwyliaeth y bydd ei hangen arnynt y tu mewn a'r tu allan i'r cartref. Bydd angen gwneud rhai penderfyniadau cynnar cyn y gellir cwblhau asesiad risg o'r fath (gweler y blwch), ond gellir adolygu'r rhain yn dilyn yr asesiad.

Mae adnoddau asesu risg sy'n seiliedig ar dystiolaeth fel AIM3 **(gweler www.aimproject.org.uk)** a PROFESOR **(gweler www.profesor.ca)** yn gofyn am weithwyr proffesiynol profiadol, medrus a hyfforddedig. Dylai'r cyfrifoldeb fod ar y gwasanaeth (nid ar y gweithiwr proffesiynol unigol) i ganfod a chomisiynu gwasanaethau allanol neu ymgynghori os nad oes arbenigedd o'r fath ar gael yn lleol.

Gweler hefyd adran 5.3.3 ***Sibling Sexual Abuse: A Knowledge and Practice Overview*** y Ganolfan CPRh.

**Tra rydych chi'n aros am asesiad risg yn seiliedig ar dystiolaeth**

Rydym yn cydnabod y bydd asesiad risg yn seiliedig ar dystiolaeth yn cymryd amser i'w gwblhau, ac mae'n bosibl y bydd angen gwneud penderfyniadau cyn iddo gael ei gwblhau. Os felly, bydd angen i chi ystyried y cwestiynau canlynol (y bydd yr asesiad risg yn ceisio eu hateb) cystal â phosibl er mwyn bod yn sail i'ch penderfyniadau cychwynnol:

- Pam mae'r plentyn wedi ymddwyn fel hyn? Gellir aralleirio hyn fel: Pa ffactorau sydd wedi dylanwadu ar yr ymddygiad rhywiol niweidiol hwn? Pa anghenion sy'n cael eu diwallu gan yr ymddygiad? Bydd deall pa anghenion yr oedd y plentyn yn ceisio eu diwallu drwy ei ymddygiad yn gymorth i chi feddwl sut y gellir ei gefnogi i ddiwallu ei anghenion mewn ffyrdd pro-gymdeithasol.

- A oes adegau penodol y mae'r ymddygiad yn fwy tebygol o ddigwydd? Er enghraifft, ar adegau o'r dydd neu mewn sefyllfaoedd penodol (megis yn ystod gêm neu pan mae rhieni'n brysur). Bydd deall hyn yn gymorth i chi ystyried pa anghenion cymorth sydd angen eu sefydlu yn ystod yr adegau hyn.

- A oes llefydd penodol y mae'r ymddygiad yn fwy tebygol o ddigwydd? Er enghraifft, yn ystafell wely plentyn, ystafell ymolchi, neu le ynysig fel sied. Bydd deall lle mae'r ymddygiadau hyn yn fwy tebygol o ddigwydd yn gymorth i feddwl sut i wneud y llefydd hyn yn fwy diogel. Er enghraifft, drwy gadw drysau ystafelloedd gwely ar agor pan fyddant yn chwarae ynddynt, neu gytuno ar reolau teuluol mai dim ond un person sy'n cael mynd i'r ystafell ymolchi ar y tro.

- A oes unrhyw beth i awgrymu bod y plentyn yn achosi risg uwch? Er enghraifft, a yw'n awgrymu ei fod yn bwriadu ailadrodd yr ymddygiad, neu a yw'n ymddangos yn arbennig o ddig neu genfigennus o'i frawd neu chwaer? Er nad yw'r ffactorau hyn yn golygu o reidrwydd y bydd y plentyn yn ymddwyn fel hyn eto, maent yn awgrymu bod angen goruchwyliaeth ychwanegol.

- Beth yw'r ffactorau amddiffynnol ym mywyd y plentyn? Pa gryfderau y gellir eu datblygu, a sut gellir defnyddio'r cryfderau a'r ffactorau amddiffynnol hyn? Er enghraifft, os oes gan y plentyn hobïau neu ddiddordebau penodol, a all ei ysgol ei gefnogi i ddod o hyd i weithgareddau allgyrsiol i ddatblygu'r diddordebau hyn?

Sylwch, oherwydd pryderon cynyddol am gam-drin rhywiol a chanfyddiadau o bobl sy'n niweidio plant yn rhywiol, mae'n bosibl y bydd rhai gweithwyr proffesiynol yn goramcangyfrif lefelau risg heb seilio eu ffordd o feddwl ar asesiad clir a thryloyw o gyd-destun y teulu cyfan (King-Hill, McCartan et al, 2023).

**(f) Oedran a chamau datblygiad y plant, ac unrhyw faterion sy'n ymwneud ag anabledd dysgu neu niwroamrywiaeth**

Sefydlwch i ba raddau y mae'r rhiant/rhieni yn gallu gosod ffiniau clir a bod y plant yn gallu parchu'r ffiniau hynny. Ystyriwch hefyd a fyddai'r plentyn sydd wedi niweidio yn gallu gwneud synnwyr gwybyddol o unrhyw wahanu oddi wrth y brawd/chwaer/teulu.

**(g) Ansawdd a gwerth y berthynas rhwng brodyr a chwiorydd**

Po fwyaf gwerthfawr yw'r berthynas i'r brodyr a'r chwiorydd, y mwyaf egnïol y gall fod angen i'r ymdrechion fod i'w galluogi i barhau i fyw gyda'i gilydd yn ddiogel. Ond gyda chefnogaeth, mae perthynas gref a gwerthfawr yn debygol o allu goroesi cyfnod o wahanu tra bydd asesiad pellach yn cael ei gynnal, neu hyd nes y gellir cyflwyno mesurau diogelwch digonol.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn ystyried sut mae'r ymddygiad rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd yn debygol o effeithio ar eu perthynas.

Mae Pennod 2 ***Sibling Sexual Abuse: A Knowledge and Practice Overview*** y Ganolfan CPRh yn cynnwys gwybodaeth fanwl am ddeall perthnasoedd rhwng brodyr a chwiorydd.

## 5.2 Adolygu'r penderfyniad

Dylid adolygu penderfyniad y brodyr a chwiorydd i barhau i fyw gyda'i gilydd yn rheolaidd beth bynnag a ddigwydd (o leiaf unwaith bob wyth wythnos mewn sefyllfaoedd sefydlog), ac ar frys:

- os oes unrhyw un o'r plant yn dechrau dangos arwyddion o drallod
- os yw'r plentyn sydd wedi niweidio yn parhau i fod mewn sefyllfa o ymddiriedaeth neu awdurdod o ran brodyr a chwiorydd eraill, neu os oes unrhyw fath o chwarae garw yn parhau
- os oes ymdrechion rhesymol i gyfyngu ar ymddygiad problemus neu gamdriniol heb weithio
- os nad yw'r rhiant/rhieni wedi gwneud ymdrechion rhesymol i greu amgylchedd iach, ac mae pryderon yn parhau ynghylch ymddygiad rhywiol y plant
- os yw awyrgylch y teulu yn danllyd.

Pa benderfyniadau bynnag a wneir ynghylch trefniadau byw'r brodyr a chwiorydd ar y dechrau, bydd angen adolygu'r penderfyniadau hyn, a chynnal asesiad cynhwysfawr pellach. Mae angen i weithwyr proffesiynol fod yn agored i wybodaeth newydd bob amser, a gallu newid cynlluniau gofal a diogelwch yn unol â hynny (gweler Pennod 6).



6.

# Cyswllt rhwng y plant

Ar ôl i ymddygiad rhywiol problemus neu gamdriniol rhwng brodyr a chwiorydd ddod i'r amlwg, a ph'un a yw'r plant yn dal i fyw gyda'i gilydd ai peidio, bydd angen gwneud penderfyniadau ynghylch a ddylid caniatáu cyswllt rhyngddynt, a sut byddai'r cyswllt hwnnw'n cael ei reoli.

## 6.1 Os yw'r plant yn byw ar wahân, a ddylid cael cyswllt rhyngddynt?

Os yw'r brodyr a'r chwiorydd wedi cael eu gwahanu, bydd angen gwneud penderfyniadau ynghylch a ddylen nhw gael unrhyw gyswllt â'i gilydd.

Hyd yn oed os yw'n ymddangos bod y brodyr a'r chwiorydd wedi mwynhau perthynas gadarnhaol cyn i'r ymddygiad rhywiol gael ei ddatgelu neu ei ddarganfod, ni ddylech gymryd yn ganiataol y bydd gwerth o hyd iddynt weld ei gilydd wedi hynny. Ewch ati i asesu'r sefyllfa'n llawn cyn dechrau'r cyswllt; gallai fod yn ddoeth ystyried cymodi'n raddol (megis dechrau drwy gysylltu'n anuniongyrchol rhwng y brodyr a'r chwiorydd cyn symud tuag at gyswllt yn cael ei hwyluso, mewn lleoliad niwtral).

Mewn unrhyw achos, dylech ystyried y canlynol:

- effaith debygol yr ymddygiad rhywiol (gan gynnwys yr effaith emosiynol) ar y plant yn y teulu, yn enwedig y plentyn sydd wedi cael ei niweidio
- safbwyntiau'r plant, yn enwedig y brawd neu chwaer sydd wedi cael ei niweidio
- ansawdd a gwerth y berthynas rhwng brodyr a chwiorydd, gan gynnwys ystyried effaith debygol yr ymddygiad rhywiol ar y berthynas
- yr effaith bosibl ar y ddau blentyn/pob plentyn o weld ei gilydd a threulio amser gyda'i gilydd
- y gallu i amddiffyn sydd gan yr oedolyn/oedolion a fyddai'n goruchwylio ac yn rheoli'r cyswllt, a'u gallu i ddeall ac ymateb i anghenion y plant.

Mae adran 5.3.2 ***Sibling Sexual Abuse: A Knowledge and Practice Overview*** y Ganolfan CPRh yn cynnwys gwybodaeth ynghylch pennu lefel y cyswllt.

## 6.2 Cynllunio diogelwch

Os penderfynir y dylai'r brodyr a chwiorydd barhau i fyw gyda'i gilydd neu i fod mewn cyswllt â'i gilydd, gartref neu yn rhywle arall, mae angen cytuno ar gynllun diogelwch ar y cyd gyda'r teulu.

Mae angen i'r cynllun diogelwch yn y cartref fod yn agored i'r plant, eu rhiant/rhieni, a'u rhwydwaith cefnogi ehangach, a rhaid ei adolygu'n rheolaidd. Dylai roi cyfle therapiwtig i'r teulu gydnabod yn agored a datblygu eu cyd-ddealltwriaeth o'r hyn sydd wedi digwydd, a chydnabod y cryfderau y gall pob un ohonynt eu cynnig i helpu'r teulu i symud ymlaen yn y dyfodol.

Dylai'r cynllun amlinellu ffiniau a gofynion goruchwylio mewn perthynas â'r canlynol:

- ystafelloed gwely a threfniadau cysgu
- trefniadau ystafell ymolchi/toiled (ee cloeon ar ddrysau'r ystafell ymolchi)
- chwarae a gweithgareddau eraill y tu mewn a'r tu allan i gartref y teulu (ee yn yr ysgol, gwersylloedd ysgol, clybiau ieuenctid, gweithgareddau chwaraeon, amser chwarae, a chysgu dros nos)
- rolau a chyfrifoldebau'r brodyr a chwiorydd, gan gynnwys sicrhau nad yw plentyn sydd wedi niweidio yn meddu ar unrhyw ymddiriedaeth neu awdurdod dros frodyr a chwiorydd iau, neu unigolion eraill sy'n agored i niwed
- noethni teuluol
- rhywioldeb y teulu.

(Brady and McCarlie, 2011; Worling and Langton, 2012.)

Gweler hefyd adran 5.3.1 ***Sibling Sexual Abuse: A Knowledge and Practice Overview*** y Ganolfan CPRh.

Mae angen adolygu'r cynllun diogelwch yn rheolaidd – o leiaf unwaith bob wyth wythnos mewn sefyllfaoedd sefydlog, neu pryd bynnag y ceir newid sylweddol mewn amgylchiadau, pryder newydd a godwyd, neu gais gan unrhyw un o'r plant i gymryd rhan mewn gweithgaredd newydd.

Yn dilyn ymddygiad rhywiol amhriodol rhwng brodyr a chwiorydd, dylid hefyd datblygu cynllun diogelwch tymor byr.

Mae Sefydliad Lucy Faithfull wedi cynhyrchu **templed cynllun diogelwch yn y cartref**, y gellir ei ddefnyddio pan fydd pryderon yn codi am ymddygiad rhywiol amhriodol, problemus neu gamdriniol rhwng brodyr a chwiorydd.

# 7. Asesiad pellach

Ar ôl i'r penderfyniadau cychwynnol gael eu gwneud mewn achos o ymddygiad rhywiol problemus neu gamdriniol rhwng brodyr a chwiorydd, bydd angen i chi asesu sefyllfa'r teulu cyfan yn llawer mwy gofalus ac yn fwy cynhwysfawr. Dylai'r asesiad hwn ystyried anghenion:

- y rhiant/rhieni
- y brodyr a'r chwiorydd sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r ymddygiad rhywiol
- holl frodyr a chwiorydd eraill y teulu nad oeddent yn ymwneud yn uniongyrchol â'r ymddygiad, ond a fydd, serch hynny, yn cael eu heffeithio mewn rhyw ffordd neu'i gilydd.

Gan adeiladu ar eich asesiad cychwynnol o'r risg o ymddygiad rhywiol pellach (gweler adran 5.1(e)), mae angen i'r asesiad cynhwysfawr ateb y cwestiynau canlynol:

- Pam mae'r plentyn wedi ymddwyn mewn ffordd rywiol niweidiol? Gellir aralleirio hyn fel: Pa ffactorau sydd wedi dylanwadu ar yr ymddygiad rhywiol niweidiol hwn? Pa anghenion sy'n cael eu diwallu gan yr ymddygiad?
- Pa mor debygol ydyw o ymddwyn fel hyn eto, tuag at bwy, ac o dan ba amgylchiadau?
- Beth sydd angen ei wneud yn y tymor byr i reoli risgiau?
- Beth yw'r arwyddion risg, ac a ydynt yn dod yn fwy neu'n llai amlwg?
- Beth sydd angen ei wneud yn y tymor hir i leihau risgiau ac i gefnogi datblygiad pro-gymdeithasol y plentyn sydd wedi niweidio?
- Beth fyddai'n cefnog'r plentyn sydd wedi cael ei niweidio er mwyn ei helpu i ddod dros y niwed?
- Sut mae'r ymddygiad rhywiol wedi effeithio ar aelodau eraill o'r teulu, gan gynnwys plant, a pha gymorth sydd ei angen arnynt?
- Sut gall y rhiant/rhieni rhoi'r cymorth gorau i bob plentyn yn y teulu?
- Sut bydd cynnydd yn cael ei werthuso a'i adolygu?

Ar y cam hwn, mae angen i chi feddwl yn fwy gofalus am y canlynol:

- hanes y teulu
- perthnasoedd a gweithrediad y teulu
- y berthynas rhwng y plant
- y berthynas rhwng y rhieni
- effaith yr ymddygiad rhywiol ar wahanol aelodau o'r teulu
- gallu'r rhiant/rhieni i amddiffyn eu plant
- diogelwch yr amgylchedd teuluol
- deall risgiau a ffactorau amddiffynnol.

## 7.1 Cyfweld ag aelodau'r teulu

Bydd cynnal asesiad trylwyr ar sail cryfderau yn cynnwys cyfweld â'r rhiant/rhieni, y plentyn sydd wedi niweidio, y plentyn sydd wedi cael ei niweidio, ac unrhyw frodyr a chwiorydd sydd ddim yn ymwneud â'r ymddygiad. Dylai'r cyfweliadau hyn geisio casglu hanes datblygiadol llawn pob plentyn, fel bod modd deall natur ac ansawdd y berthynas rhwng y brodyr a chwiorydd. Dylent roi sylw i'r canlynol:

- patrymau o ran agosatrwydd ac ymlyniad
- cysylltiadau teuluol – rhannu emosiynau a rôl cyfrinachedd a chyfrinachau rhwng aelodau o'r teulu
- newidiadau mewn perthnasoedd teuluol dros amser
- deinamig pŵer – Pwy sy'n cael beth, a sut, yn y teulu? Beth mae aelodau o'r teulu yn ei wneud i bryfocio, codi cywilydd, gwobrwyo, disgyblu a chosbi ei gilydd? Pwy sy'n wynebu canlyniad yr ymddygiadau hyn fel arfer, a chan bwy?
- sut mae gwrthdaro rhwng brodyr a chwiorydd yn dod i'r amlwg, a sut mae'r sefyllfa'n cael ei datrys fel arfer
- chwarae gwirion o fewn y teulu (goglais, chwarae cwffio, ac ati)
- rolau a chwaraeir gan frodyr a chwiorydd yn y teulu
- rolau rhywedd traddodiadol a stereoteipiau o fewn y teulu
- rhywioli – A yw aelod o'r teulu yn dweud unrhyw beth sy'n gwneud i aelod arall o'r teulu deimlo'n anghyfforddus am eu corff? A oes unrhyw aelodau o'r teulu wedi cael eu cyffwrdd mewn ffyrdd nad ydynt eu hoffi? Beth yw'r negeseuon rhywiol sy'n cael eu cyfleu gan y rhiant/rhieni?
- deinameg ddiwylliannol y teulu (ee credoau a gwerthoedd, effaith rhyw/rhywedd, effaith y cywilydd)
- safbwyntiau ar beth sydd angen ei newid yn y dyfodol i hyrwyddo diogelwch rhywiol, emosiynol a chorfforol.

(Addaswyd o Caffaro a Conn-Caffaro ,1998:263–272.)

Mae rhagor o wybodaeth am y dull teulu cyfan o asesu ar gael yn adran 5.3.3 ***Sibling Sexual Abuse: A Knowledge and Practice Overview*** y Ganolfan CPRh.

# 8. Ymyrraeth a chymorth pellach

Mae'n rhaid i unrhyw ymyriadau i ymateb i ymddygiad rhywiol problemus neu gamdriniol rhwng brodyr a chwiorydd gael eu lleoli mewn cynllun cymorth cyffredinol ar gyfer y teulu cyfan, gan gynnwys y rhiant/rhieni, y plant sy'n ymwneud â'r ymddygiad, a brodyr a chwiorydd eraill. Mae ymyriadau teuluol o'r fath yn dal i gael eu tanwerthuso, ond dylai eu sylw fod ar gefnogi'r teulu i wneud synnwyr o'r trawma a symud ymlaen mewn ffordd iach.

Mae angen i nodau hirdymor yr ymyriadau hyn gael eu llywio gan y canlyniadau allweddol canlynol:

- sicrhau diogelwch
- cefnogi'r plentyn sydd wedi cael ei niweidio ac unrhyw blant eraill yn y teulu
- helpu'r plentyn sydd wedi niweidio i newid ei ymddygiad
- adfer perthnasoedd teuluol yn gyffredinol
- adfer gweithrediad y teulu.

Mae cyflawni'r canlyniadau hyn yn gofyn am ymateb amlasiantaethol cydlynol sy'n cynnwys ysgolion a grwpiau cymunedol eraill (Tener a Silberstein, 2019), lle mae aelodau o'r teulu'n cael eu cynnwys fel partneriaid yn y broses o wneud penderfyniadau, a bod eu cryfderau a'u gallu i fod yn warchodol yn cael ei gydnabod. Mae'n bwysig deall y bydd y broses o wella'n digwydd yn y gymuned yn ogystal â thrwy ymyriadau therapiwtig, felly rhaid defnyddio cryfderau'r holl system o gwmpas y plentyn a'r teulu.

Pan fydd plant wedi cael eu gwahanu, mae angen i'r cynllun ymyrryd ddarparu arweiniad ar benderfyniadau ynghylch trefniadau cyswllt a'r posibilrwydd o ail-uno'r teulu. Efallai na fydd yn bosibl ail-uno'r teulu ym mhob achos, ond dylai'r nod hwn siapio a llywio'r cynllun ymyrryd.

Mae ymchwil i ddeilliannau oedolion sydd wedi goroesi cam-drin rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd (Monahan, 2010: Tener, 2021) wedi canfod bod llawer o frodyr a chwiorydd yr effeithir arnynt yn gallu wynebu heriau pan fyddant yn oedolion yn gysylltiedig â delio â straen a achosir gan ddigwyddiadau teuluol (genedigaethau, marwolaethau, priodasau, salwch ac ati). Gall hyn fod yn wir hyd yn oed pan fydd ymyriadau wedi'u cwblhau'n llwyddiannus. Felly, dylid ystyried, pan fydd achos yn cael ei gau, am gymorth ôl-ofal a sicrhau bod aelodau'r teulu'n gwybod sut i gael gafael ar gyngor, arweiniad a gwasanaethau therapiwtig priodol yn y dyfodol.

I gael rhagor o wybodaeth am ymyriadau gyda'r teulu cyfan, a'r nod o ail-uno'r teulu, gweler adran 5.4 ***Sibling Sexual Abuse: A Knowledge and Practice Overview*** y Ganolfan CPRh

# Rhan C: Diwallu eich anghenion personol

9.

# Gofalu amdanoch chi eich hun

Mae cefnogi teuluoedd y mae ymddygiad rhywiol niweidiol rhwng brodyr a chwiorydd yn effeithio arnynt yn gallu bod yn heriol, yn emosiynol, ac yn llethol ar brydiau. Gall roi prawf ar eich rhagdybiaethau o blant a pherthnasoedd teuluol, a sbarduno ymateb gennych chi – p'un a oes gennych chi brofiadau personol o gam-drin rhywiol yn y gorffennol ai peidio.

Mae cynnal eich lefelau egni, a'ch teimladau o hunan-werth a hunan-barch, yn hanfodol er mwyn sicrhau eich bod yn gallu cefnogi plant yn effeithiol a chynnal eich llesiant emosiynol eich hun. Er mwyn aros yn iach ac yn effeithiol yn eich swydd, mae angen i chi ddeall beth yw'r effaith seicolegol ac emosiynol o weithio gyda phlant sydd wedi dangos ymddygiad rhywiol niweidiol, neu sydd wedi cael eu niweidio gan hynny, yn ogystal â rhoi sylw i arwyddion o orweithdra a thrawma eilaidd. Gall yr arwyddion hyn gynnwys:

- teimlo'n oramddiffynnol tuag at blant yn eich bywyd
- cael trafferth cysgu
- teimlo'n flin, yn rhwystredig neu'n ddadrithiedig
- ei chael hi'n anodd dangos empathi.

Dylai eich cyflogwr ddarparu goruchwyliaeth, hyfforddiant, a chymorth i reoli baich gwaith er mwyn eich cefnogi i wneud eich gwaith yn effeithiol. Gall hefyd eich cefnogi i gael gafael ar oruchwyliaeth neu i ymgynghori'n allanol.

## Beth arall allwch chi ei wneud?

Er mwyn gofalu amdanoch eich hun wrth weithio gyda phlant sydd wedi ymddwyn yn rhywiol neu wedi cael eu cam-drin yn rhywiol, gwnewch amser i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n eich helpu i ymlacio. Mae cyngor ar osod ffiniau personol a phroffesiynol, gofalu amdanoch eich hun, a rheoli straen ar gael gan **Sefydliad Lucy Faithfull**.

Efallai y byddai hefyd yn ddefnyddiol i chi gael mynediad at gwnsela neu therapi, ac mae gan rai cyflogwyr gynlluniau llesiant sy'n darparu cefnogaeth o'r fath i'w gweithwyr.

Yn hytrach na chael pethau'n anodd, ceisiwch gael eich mecanweithiau a'ch strategaethau cymorth ar waith o'r dechrau.

Yn y gwaith, mae'n bwysig eich bod yn cymryd cyfrifoldeb i geisio cymorth gydag unrhyw broblemau a heriau rydych chi'n eu hwynebu; efallai y bydd gwasanaethau iechyd galwedigaethol ar gael i ddarparu cymorth lle bo angen. Agwedd arall ar fod yn broffesiynol yw deall eich cryfderau a'ch gwendidau eich hun, a gwrthod cyfleoedd i weithio mewn sefyllfaoedd fel hyn os nad ydych chi'n teimlo'n ddigon cyfforddus i ddelio â nhw.

# Cyfeirnodau

Allardyce, S. ac Yates, P. (2018) *Working with Children and Young People Who Have Displayed Harmful Sexual Behaviour.* Caeredin: Dunedin Academic Press.

Brady, A. a McCarlie, C. (2011) Embracing diversity – Risk management and risk reduction: A practice model for children and young people and the systems around them. Yn Calder, M. (gol.) *Contemporary Practice with Young People Who Sexually Abuse: Evidence-based Developments.* Lyme Regis: Russell House.

Brown, S. (2023) *Negeseuon Allweddol o Ymchwil ar Ymddygiad Rhywiol Niweidiol mewn Cyd-destunau Ar-lein.* Barkingside: Canolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol.

Caffaro, J. a Conn-Caffaro, A. (1998) *Sibling Abuse Trauma: Assessment and Intervention Strategies for Children, Families and Adults.* Efrog Newydd: Routledge.

Fontana, L. (2001) The experience of sibling relationships in the voices of children: Systemic interviews of dyads following the trauma of sibling incest and its recovery [Traethawd PhD.] Corvallis, OR: Oregon State University.

Glinski, A. (2021) *Arwyddion a Dangosyddion: Templed ar Gyfer Adnabod a Chofnodi Pryderon ynghylch Cam-drin Plant yn Rhywiol.* Barkingside: Canolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol.

Hackett, S. (2010) Children and young people with harmful sexual behaviours. Yn Barter, C. a Berridge, D. (gol.) *Children Behaving Badly? Peer Violence between Children and Young People.* Chichester: Wiley-Blackwell.

King-Hill, S., Gilsenan, A., Beavis, J. ac Adams, A. (2023) *Sibling Sexual Abuse: Practitioner Mapping Tool.* Birmingham: Prifysgol Birmingham.

King-Hill, S., McCartan, K., Gilsenan, A., Beavis, J. ac Adams, A. (2023) *Understanding and Responding to Sibling Sexual Abuse.* Cham, Y Swistir: Palgrave Macmillan.

Milner, J., Myers, S. ac O'Byrne, P. (2020) *Assessment in Social Work (5th edition).* Llundain: Red Globe Press.

Monahan, K. (2010) Themes of adult sibling sexual abuse survivors in later life: An initial exploration. *Clinical Social Work Journal,* 38(4):361–369. **https://doi.org/10.1007/s10615-010-0286-1**

Tener, D. (2021) "I love and hate him in the same breath": Relationships of adult survivors of sexual abuse with their perpetrating siblings. *Journal of Interpersonal Violence*, 36(13–14):NP6844–NP6866. **https://doi.org/10.1177/0886260518821462**

Tener, D. a Silberstein, M. (2019) Therapeutic interventions with child survivors of sibling sexual abuse: The professionals' perspective. *Child Abuse & Neglect*, 89:192–202. **https://doi.org/10.1016/j.chiabu.2019.01.010**

Worling, J. a Langton, C. (2012) Assessment and treatment of adolescents who sexually offend: Clinical issues and implications for secure settings. *Criminal Justice and Behavior*, 39(6):814–841. **https://doi.org/10.1177/0093854812439378**

Yates, P. (2020) "It's just the abuse that needs to stop": Professional framing of sibling relationships in a grounded theory study of social worker decision making following sibling sexual behavior. *Journal of Child Sexual Abuse,* 29(2):222–245. **http://doi.org/10.1080/10538712.2019.1692399**

Yates, P. (2018) 'Siblings as better together': Social worker decision making in cases involving sibling sexual behaviour. *British Journal of Social Work*, 48(1):176–194. **https://doi.org/10.1093/bjsw/bcx018**

Yates, P. ac Allardyce, S. (2021) *Sibling Sexual Abuse: A Knowledge and Practice Overview.* Barkingside: Canolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol.

Canolfan CPRh
Tanners Lane,
Barkingside,
Ilford, Essex,
IG6 1QG.

Tynnwyd y ffotograffau yn y cyhoeddiad hwn gan ddefnyddio actorion ac nid ydynt yn darlunio sefyllfaoedd gwirioneddol.